GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cadw a Gwerthfawrogi Nyrsys o fewn y GIG yng Nghymru

## Cynllun Cadw Nyrsys



# Contents


**Hanfod** .......... 1
**Cyd-destun** .......... 1
Ysgogwyr Strategol .......... 1
Datblygu'r Cynllun .......... 2
**Achos dros Newid** .......... 2
**Ein Cynllun Gweithredu i Wella Cyfraddau Cadw** .......... 4
Arweinyddiaeth a Diwylliant Tosturiol .......... 4
Gwerthfawrogi ein staff .......... 5
Cynorthwyo Dechreuwyr Newydd a'r Sawl sy'n Newid Rôl .......... 5
Cynorthwyo Nyrsys Rhyngwladol .......... 6
Datblygu a Chynllunio Gyrfaoedd .......... 7
Gweithio Hyblyg .......... 7
Ymddeoliad Hyblyg .......... 8
Iechyd a Lles .......... 9
Cydnabyddiaeth a Chymhellion .......... 9
Arfarnu Effaith .......... 10
Deall Data a Gwybodaeth .......... 11
**Hyrwyddo Gweithrediad** .......... 12
**Cyfeiriadau** .......... 13

# Hanfod

Cynhyrchwyd y Cynllun Cadw Nyrsys hwn fel cam allweddol o'r ymdrech i ddatblygu cynllun gweithlu nyrsio cynaliadwy ac mewn ymateb i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu (NWIP). Mae'n un o'r cyflawniadau cyntaf yn y broses o ddatblygu Rhaglen Waith Cadw Genedlaethol ehangach a bydd yn cynnig argymhellion a chymorth i sefydliadau i fynd i'r afael â'r heriau o ran cadw nyrsys yng Nghymru. Bwriad y Cynllun yw cynorthwyo a chyfnerthu'r gwaith y mae llawer o sefydliadau eisoes yn ei wneud a chaiff ei ategu gan y canllaw cadw a'r adnodd hunanasesu (atodiad un a dau).

Nod y Cynllun yw cynorthwyo'r ymdrech i gadw nyrsys sy'n cael eu cyflogi o fewn **sefydliadau GIG Cymru**. Byddai nyrsys sy'n cael eu cyflogi yn y system iechyd a gofal ehangach hefyd yn elwa o'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn ac argymhellir i'w cyflogwyr ystyried mabwysiadu rhai ohonynt i wella'u cyfraddau cadw nyrsys.

# Cyd-destun

Y gweithlu nyrsio yw'r gweithlu mwyaf ym maes gofal iechyd ac mae'n chwarae rhan ganolog yn narpariaeth gofal a gwasanaethau ledled Cymru. Mae'r proffesiwn yn wynebu awr dyngedfennol mewn perthynas â chadw'r gweithlu nyrsio medrus. Er gwaethaf nifer cynyddol o nyrsys yn ymuno â'r proffesiwn (NMC 2022), ni fu'r gagendor rhwng y cyflenwad a'r galw erioed yn amlycach. Er bod sefydliadau'n ymlafnio i gynyddu niferoedd nyrsys drwy strategaethau atynnu a recriwtio, mae hefyd yn hanfodol bwysig ein bod yn canolbwyntio ar gadw ein nyrsys. Mae sawl her sylweddol yn gysylltiedig â hyn fel yr amlygwyd mewn cyfres o adroddiadau gan gynnwys adroddiadau'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) "Niferoedd Nyrsio 2021" a "Cadw Nyrsys yn y Proffesiwn: Beth sy'n Bwysig? 2022". Mae canfyddiadau'r adroddiadau wedi llywio'r cynllun cadw hwn yn ogystal â chynhyrchiad yr adnodd Canllaw Cadw cyflenwol a'r adnodd Hunanasesiad Cadw.

## Ysgogwyr Strategol

Mae'r ysgogwyr polisi canlynol yn darparu'r sylfeini strategol er budd datblygu'r Cynllun hwn.

- Cymru Iachach: Mae ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2020) yn nodi'r uchelgais ar gyfer: **'gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig, ymrwymedig sy'n teimlo bod iddynt werth— gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru.'** Mae Strategaeth y Gweithlu (WFS) yn pennu'r cyfeiriad strategol drwy gyfrwng 32 o gamau gweithredu sy'n pontio saith thema, gyda llesiant, y Gymraeg a chynhwysiant wedi'u plethu drwy ystod ein gwaith. Mae'r camau gweithredu ar draws yr holl themâu'n ymgyfuno i hyrwyddo'r gwaith o gadw staff.
- Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023, yn amlinellu cyfres o gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r gweithlu. Un o'r camau hyn yw: **'Bydd AaGIC yn darparu cynllun cadw nyrsys fel rhan o'r gwaith o gwblhau cynllun gweithlu nyrsio strategol. Bydd yn defnyddio canfyddiadau adroddiad y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cadw Nyrsys yn y Proffesiwn: Beth sy'n Bwysig? (2022)'**
- Mae Adroddiad y Coleg Nyrsio Brenhinol, **'Cadw Nyrsys yn y Proffesiwn: Beth sy'n Bwysig?'** yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion hanfodol sy'n deillio o adolygiad llenyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arolwg o blith aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol.

- Hyrwyddo cydymffurfiaeth â Deddf Ansawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2023).
- Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) hefyd yn eiriol dros Gymru iachach ac mwy cydnerth.
- Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y gwasanaeth iechyd roi sylw i ddarpariad lefelau staff nyrsio priodol mewn meysydd clinigol fel y nodir yn adran 25B. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan eu nyrsys amser digonol i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion.

## Datblygu'r Cynllun

Fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol, daeth 'cadw' i'r amlwg fel un o'r materion tyngedfennol sy'n effeithio ar y gweithlu. Sefydlwyd ffrwd waith Cadw i oruchwylio cread y Cynllun Cadw hwn gyda chymorth parod gan gydweithwyr nyrsio a gweithlu ar draws GIG Cymru a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

Mae adnoddau a chanllawiau wedi'u datblygu gan GIG Lloegr hefyd wedi cael eu hadolygu, sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu:

- **Y Canllaw Cadw - Cadw a Gwerthfawrogi ein Gweithlu o fewn GIG Cymru**. Mae'r adnodd hwn yn darparu opsiynau ac atebion i wella cyfraddau cadw ar draws GIG Cymru. Fodd bynnag, mae ei gynnwys hefyd yn berthnasol i'r system gofal iechyd ehangach.
- **Hunanasesiad Blynyddol.** Mae'r adnodd hwn yn galluogi arweinwyr a rheolwyr i adolygu eu harferion cadw a datblygu trefniant sylfaenol ar gyfer eu ward; safle; a'u sefydliad. Bydd yn galluogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i nodi meysydd sy'n peri pryder ac i hyrwyddo camau gweithredu.

## Achos dros Newid

Mae sefydliadau GIG Cymru'n ymwybodol mai heriau ar sail y gweithlu yw'r bygythiad mwyaf y mae'r gwasanaeth iechyd yn ei wynebu ar hyn o bryd, sydd eisoes yn effeithio'n sylweddol ar gleifion a staff.

Mae pandemig Covid-19 wedi dwysáu'r heriau i sefydlogrwydd y gweithlu, gan beri i fwy o'n staff nag erioed benderfynu gadael eu swyddi, gyda rhai yn ymadael â'r GIG yn gyfan gwbl. Mae prinder gweithlu clinigol yn gyffredinol, a phrinder Nyrsys Cofrestredig yn fwy penodol, yn parhau i fod yn bryder allweddol ledled Cymru.

Mae prinder byd-eang o ran y gweithlu a'r galw cynyddol am wasanaethau'n golygu y bydd ein dibyniaeth ar recriwtio yn her gynyddol. Nid recriwtio felly yw'r unig ffordd o sicrhau bod gennym ddigon o staff.

Gwella cyfraddau cadw yw un o'r ffyrdd o leihau'r gagendor rhwng nifer y nyrsys sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd a'r nifer sydd eu hangen dros y tymor canolig. Er y gall datblygu atebion cadw fod yn orchwyl gymhleth, mae'n strategaeth effeithiol ac effeithlon yn ategol i'r gwaith o recriwtio a hyfforddi mwy o bobl.

Nid oes ateb syml nac unigol i wella cyfraddau cadw. Rydym wedi datblygu'r Cynllun Cadw Nyrsys Cenedlaethol hwn yn dilyn adolygiad a dadansoddiad manwl o'r ymchwil. Gwnaed hyn i archwilio'r berthynas rhwng ffactorau'n ymwneud â'r gweithle a phenderfyniadau nyrsys i aros yn eu swyddi. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfres o ymyriadau pellgyrhaeddol a allai helpu i wella'r argyfwng gweithlu presennol, o'u rhoi ar waith ar unwaith.

Mae adolygiad llenyddiaeth o dystiolaeth gan Gyrff Proffesiynol a melinau trafod (The

Kings Fund, Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Bwrdd Cynghori) yn nodi amrywiaeth o resymau dros gymell nyrsys i adael y proffesiwn.

Mae arolwg NMC (2022) yn amlygu ymddeoliad fel y rheswm mwyaf cyffredin dros adael. Nododd rhai unigolion iddynt deimlo pwysau i ymddeol yn gynnar a nododd 9.9% eu bod yn poeni am fethu â bodloni'r gofynion ailddilysu.

Dyma'r rhesymau:

- Gorflinder gwaith
- Siomiant â'r rôl
- Effaith ar ofal cleifion
- Trefniadau gweithio anhyblyg
- Diffyg arweinyddiaeth dosturiol
- Diffyg datblygiad gyrfaol
- Tâl
- Diwylliant gwael
- Ymddeoliad
- Materion staffio diogel
- Straen a phryder
- Cydbwysedd bywyd a gwaith

At hynny, roedd 3,221 o swyddi gwag ar gyfer y gweithlu nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd yng Nghymru ar 31 Rhagfyr 2022. Dywed Llywodraeth Cymru bod hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel. (Llywodraeth Cymru, 2023).

Un o effeithiau'r niferoedd uchel hyn o swyddi gwag yw cynnydd sylweddol yn y defnydd o nyrsys banc ac asiantaeth, a all effeithio ar ansawdd gofal. Yn 2018/19, roedd y gwariant ar gyfer nyrsys a bydwragedd cofrestredig asiantaeth a locwm yn gyfwerth â £65,440,433. Erbyn 2021/22 roedd y gwariant wedi cynyddu i £133,428,905.

Er efallai i'r cynnydd hwn gael ei achosi'n rhannol gan bandemig Covid-19, erys y ffaith ei bod yn gost sylweddol y gellid ei hail-fuddsoddi fel arall i gynorthwyo gwasanaethau rheng flaen.

Bydd y Cynllun Cadw Nyrsys hwn yn mynd i'r afael â'r themâu allweddol sy'n effeithio ar gyfraddau cadw'r gweithlu nyrsio yng Nghymru. Yn sgil yr arolwg a gynhaliwyd gan RCN (2022) nodwyd ystod o anghenion a disgwyliadau gan nyrsys yr oeddynt yn eu dynodi fel hanfodion pwysig yn y gweithle :

1. **Datblygiad a dilyniant gyrfaol clir, strwythuredig**
2. **Gofal a chymorth (personol a phroffesiynol) gan arweinwyr a thimau**
3. **Profi gwerthfawrogiad a diolchgarwch**
4. **Mentoriaeth a thiwtoriaeth**
5. **Hyblygrwydd i gynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith**
6. **Cynhorthwy a hyrwyddiad i fodloni disgwyliadau cleifion a'r cyhoedd gyda'r adnoddau gofynnol i ddarparu gofal diogel o ansawdd.**
7. **I'w gynnwys yn y broses o lunio penderfyniadau ar gyfer gwella gwasanaethau**

Yn ogystal â'n hymchwil uchod, mae sawl maes arall i'w ystyried o ran cadw nyrsys:

# Ein Cynllun Gweithredu i Wella Cyfraddau Cadw

Mae'r achos dros newid yn amlygu'r angen i drawsnewid prosesau cadw ar gyfer ein gweithlu nyrsio. Bydd yr adran nesaf hon yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar lefel genedlaethol a lleol i ddylanwadu ar welliannau yng nghyfraddau cadw ein gweithlu nyrsio. Mae angen i sefydliadau gofal iechyd gydnabod a phennu faint o amser neilltuedig sydd i'w fuddsoddi i sicrhau gwelliannau o ran cadw nyrsys. Mae ffocws y camau gweithredu ar brofiad staff, gan gydnabod bod trafodaethau cenedlaethol yn parhau ynghylch cyflogau a chydnabyddiaeth.

## Arweinyddiaeth a Diwylliant Tosturiol

Gall diwylliant tosturiol cadarnhaol fod yn elfen rymus o ran siapio'r modd y mae nyrsys yn darparu gofal, yn rheoli eu gwaith, yn rhyngweithio â chleifion, cydweithwyr a gofalwyr yn ogystal â datblygu a gwella ffyrdd o ddarparu gwasanaethau. Mae deall sut mae staff yn dirnad diwylliant timau, gwasanaethau a sefydliadau a sut y maent am gael eu trin yn elfen bwysig o rôl arweinwyr ar bob lefel.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Holl sefydliadau GIG Cymru i gyflwyno 12 mis o egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol AaGIC drwy gyfrwng rhaglen ddatblygu. Dylai'r rhaglen ddatblygu hon gael ei hanelu at arweinwyr nyrsio mewn rolau gweithredol a strategol. | AaGIC<br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>Awdurdodau Iechyd Arbennig (AIA) | Mawrth 2024 |
| Sefydliadau i gwblhau'r Adnodd Hunanasesiad Cadw ar gyfer y gweithlu nyrsio ar lefel ward, adran a safle. Bydd data a gwybodaeth sy'n deillio o'r gwaith hwn yn cael ei defnyddio fel gwaelodlin i nodi arferion da a meysydd i'w gwella ac i lywio'r cynllun gwella cyfraddau cadw lleol. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |
| Dylai sefydliadau adolygu canlyniadau arolwg staff GIG Cymru 2023 ac unrhyw arolygon lleol eraill, mewn partneriaeth â chyrff proffesiynol ac undebau llafur. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA<br>Cyrff Proffesiynol<br>Undebau Llafur | Rhagfyr 2023 |
| Dylai Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio sicrhau bod nyrsys sy'n ysgwyddo swyddi arwain a rheoli yn eu sefydliadau'n cael eu cynorthwyo i gyrchu adnodd Arweinyddiaeth Dosturiol **Gwella** AaGIC. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Rhagfyr 2023 |
| Dylai pob sefydliad ymwreiddio'r egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol ar gyfer iechyd a gofal ym mhob proses sy'n ymwneud â gweithwyr, e.e. rhaglenni cynefino corfforaethol, anwythiadau, cyrsiau cynefino lleol, sgyrsiau gyrfaol a phrosesau PADR. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |

# Gwerthfawrogi ein staff

Mae rheolwyr llinell yn chwarae rhan allweddol o ran cynorthwyo ar lefel unigol a thorfol trwy ystod gyrfaoedd nyrsys. Dylid gwneud hyn trwy broses o ymgysylltu, galluogi, grymuso a nerthu. Bydd tiwtoriaeth o ansawdd yn sicrhau bod nyrsys newydd gymhwyso'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hysbrydoli. Mae hyn yn darparu sylfaen hanfodol yn y cyfnod cynnar hwn. Mae goruchwyliaeth glinigol yr un mor bwysig er mwyn sicrhau y gall nyrsys ar bob lefel fyfyrio ar yr ymarfer clinigol y maent yn ei gynnal.
https://www.llyw.cymru/dull-cymru-gyfan-o-gefnogaeth-syn-rhychwantu-gyrfa-nyrsys.

Er enghraifft, gall gwell ymgysylltiad â staff a dulliau o gyfathrebu leihau lefelau absenoldeb salwch. Gall hefyd beri i nyrsys deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a chael effaith gadarnhaol ar ofal cleifion.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Rhaid i sefydliadau ddarparu amser neilltuedig ar gyfer tiwtoriaeth a goruchwyliaeth glinigol sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a gynhwysir yn Null Cymru Gyfan o Wella Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol mewn Ymarfer Nyrsio. | Llywodraeth Cymru<br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |
| Dylai uwch-arweinwyr ac uwch-reolwyr nyrsio ymorol am ddarpariaeth hyfforddiant, adnoddau a chymorth i reolwyr llinell er budd cynnal sgyrsiau lles rheolaidd gyda'u staff. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Tachwedd 2023 |
| Dylai sefydliadau adolygu eu polisïau pryderon yn unol â'u hamserlenni lleol a chyfathrebu â'r holl staff i sicrhau bod achwynwyr yn cael eu diogelu wrth wneud hynny. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |
| Dylai cyrff gyfnerthu eu perthnasau â Sefydliadau Addysg Uwch i ddeall anghenion myfyrwyr nyrsio israddedig mewn perthynas â chyflogaeth a phrofiadau yn y gweithle gyda chymorth Hwyluswyr Addysg ar sail Ymarfer. | AaGIC<br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |

# Cynorthwyo Dechreuwyr Newydd a'r Sawl sy'n Newid Rôl

Mae cynnig profiad recriwtio a chynefino cadarnhaol ac atyniadol yn cynorthwyo nyrsys i gael y dechrau gorau i'w gyrfaoedd, yn ogystal â'u galluogi i deimlo bod iddynt werth a'u bod yn rhan o'r tîm a'r sefydliad.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Dylai rheolwyr llinell nyrsys weithio gyda chydweithwyr ym maes y gweithlu i ddatblygu rhaglenni cynefino lleol sy'n benodol i faes ymarfer a rôl glinigol dechreuwyr newydd. Dylai rhaglenni cynefino corfforaethol atgyfnerthu gwerthoedd, ymddygiadau a diwylliant sefydliadau. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ionawr 2024 |

Mae'r tabl yn parhau ar y dudalen nesaf

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Dylid cynorthwyo rheolwyr llinell nyrsys i gynnal sgyrsiau rheolaidd gyda'u timau a fydd yn eu nerthu ag ymdeimlad o gefnogaeth a chyfleoedd datblygu. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Tachwedd 2023 |
| Dylai sefydliadau adolygu'r moddau o ddarparu hyfforddiant, cymorth ac amser i nyrsys ddod yn gyfeillion, yn fentoriaid, neu'n hyfforddwyr a sut y gall y nyrsys ymgymryd â'r elfennau hyn. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Tachwedd 2023 |
| Dylai rheolwyr llinell nyrsys sicrhau bod eu tîm yn ymwybodol o'r cymorth a'r amser ychwanegol sydd ar gael iddynt—megis cael eu paru â chyfaill neu fodd o gyrchu cyngor mentor neu hyfforddwr. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Tachwedd 2023 |
| Bydd AaGIC yn sefydlu rhaglen waith genedlaethol i ymwreiddio system fentora etifeddol o fewn sefydliadau i ganiatáu i nyrsys sy'n ystyried ymddeol aros a rhannu o'u profiad amhrisiadwy gyda nyrsys iau. | AaGIC | Mehefin 2024 |

## Cynorthwyo Nyrsys Rhyngwladol

Mae recriwtio rhyngwladol moesegol yn flaenoriaeth allweddol i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gwaith cadarnhaol wedi'i wneud i hyrwyddo'r ymdrech o atynnu, recriwtio a chadw nyrsys rhyngwladol ar draws yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn parhau i weithio gyda Byrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd a Llywodraeth Cymru i gydlynu gweithgarwch recriwtio nyrsys rhyngwladol. Yn sgil y gweithgarwch cynyddol hwn, mae'n hanfodol bwysig bod sefydliadau'n cynorthwyo'r ymdrech i gadw nyrsys rhyngwladol trwy ddarparu gofal bugeiliol i nyrsys sydd newydd eu recriwtio; cynorthwyo datblygiad eu gyrfaoedd; a sicrhau eu bod yn teimlo bod iddynt werth.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, yn archwilio datblygiad cyfleoedd achredu ar gyfer Nyrsys wedi'u Haddysgu'n Rhyngwladol (IEN) gan gynnwys datblygu modiwl paratoadol OSCE Cymru Gyfan sy'n cynnig credydau academaidd. | Llywodraeth Cymru<br>NWSSP | Hydref 2023 |
| Dylai cyrff roi trefniadau ar waith i gynnig y modiwl paratoadol rhaglen OSCE. Bydd yn cynorthwyo nyrsys wedi'u recriwtio'n rhyngwladol, sy'n ymfudo i Gymru, i ymgymryd â'r asesiadau Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE) yn llwyddiannus. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Rhaid i sefydliadau lunio prosesau i sicrhau bod nyrsys rhyngwladol yn cael cyfleoedd cyfartal i ddatblygu a dyrchafu yn eu swyddi. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ionawr 2024 |

## Datblygu a Chynllunio Gyrfaoedd

Mae hyrwyddo datblygiad gyrfaol y gweithlu nyrsio'n gwbl hanfodol i wella cyfraddau cadw. Dylai prosesau cynllunio talent ac olyniaeth adlewyrchu amrywiol amgylchiadau ein holl nyrsys a fydd yn newid o gyfnod i gyfnod drwy ystod eu gyrfaoedd.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Dylai rheolwyr llinell nyrsys gynnal sgyrsiau datblygiad gyrfa rheolaidd gyda'u timau fel rhan o'r broses PADR flynyddol, gyda thystiolaeth o hyn yn cael ei dogfennu ar ESR. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Tachwedd 2023 |
| Dylai cyrff ddatblygu swyddi cylchdro i hyrwyddo datblygiad gyrfa nyrsys. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Bydd AaGIC yn datblygu, ar y cyd â phartneriaid, fframwaith sy'n hybu trosglwyddiad achrediadau a hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli ar draws sefydliadau ac yn sicrhau mwy o gysondeb wrth ddiffinio llywodraethiad / cwmpas ymarfer nyrsys. | AaGIC<br>Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau<br>AIA<br>Sefydliadau Addysg Uwch | Medi 2024 |
| Bydd AaGIC yn cynnal adolygiad llawn o'r cynllun "dychwelyd i weithio" ac yn nodi sut y gellir gwella'r cynllun presennol. | AaGIC | Mawrth 2024 |
| Rhaid i gyrff ddatblygu prosesau i sicrhau bod pob aelod o staff nyrsio yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu a dyrchafu yn eu swyddi. | Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau<br>AIA | Ionawr 2024 |

## Gweithio Hyblyg

Mae hyrwyddo hyblygrwydd yn cynyddu boddhad swydd a morâl ac yn effeithio'n gadarnhaol ar bresenoldeb staff, sy'n arwain at staff ymrwymedig yn darparu gofal diogel ac o ansawdd i gleifion. Mae'r camau a gynhwysir yn yr adran hon yn ceisio gwella cysondeb ledled Cymru mewn perthynas â chymhwyso polisïau ac arferion gweithio hyblyg.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Bydd cyrff yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau, safonau ac adnoddau i hwyluso gallu sefydliadau GIG Cymru i gynnig opsiynau a phatrymau gweithio mwy hyblyg. Bydd hyn yn cynorthwyo'r gweithlu nyrsio, gan gynnig hyfforddiant a chymorth i reolwyr ac arweinwyr er mwyn galluogi mwy o greadigrwydd a hyblygrwydd wrth amserlennu. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA<br>Llywodraeth Cymru | Medi 2023 |

Mae'r tabl yn parhau ar y dudalen nesaf

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Cytuno ar fetrig cenedlaethol cyson ar sail nifer y staff sydd wedi gofyn am weithio'n hyblyg a nifer y trefniannau o'r fath sydd wedi'u cytuno arnynt. Yna gellir monitro'r metrig hwn i asesu gweithrediad y polisïau gweithio hyblyg a meithrin dealltwriaeth o'r heriau. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA<br>Llywodraeth Cymru | Rhagfyr 2023 |
| Defnyddio Health Roster i hwyluso hunan-amserlennu ac amserlennu tîm i gynorthwyo gweithio hyblyg. Dylai nyrsys ar bob lefel feithrin y diwylliant sy'n ofynnol i hwyluso hyn yn effeithiol ac yn deg. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ionawr 2024 |
| Disgwylir i sefydliadau ymateb yn dosturiol i geisiadau gweithio hyblyg yn unol ag anghenion y gwasanaeth. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |
| Bydd sefydliadau'n monitro nifer y ceisiadau a'r cyfraddau derbyn ar gyfer gweithio hyblyg | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |
| Dylai sefydliadau gynnwys yr hysbysiad "Bydd unrhyw Oriau'n cael eu hystyried" yn rhan o brosesau recriwtio nyrsio. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Hydref 2023 |

## Ymddeoliad Hyblyg

Mae cynnig opsiynau ymddeoliad hyblyg yn galluogi sefydliadau i gadw eu nyrsys mwyaf profiadol, tra'n rhoi'r dewis yn nwylo'r gweithlu gwerthfawr hwn o ran sut maent yn parhau i weithio.

Bydd sicrhau bod y garfan hon o staff yn wybodus ac yn teimlo eu bod yn gallu trafod opsiynau ymddeol yn helpu i roi eglurder ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o gadw ein nyrsys profiadol. Wrth i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu, efallai y bydd rhai nyrsys yn dewis aros wrth eu gwaith yn hirach gan ddefnyddio opsiynau ymddeoliad hyblyg a gweithio amgen i ategu hyn. Rhaid mynegi'n glir i nyrsys y cymhlethdodau a all godi yn sgil newidiadau i bensiynau fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hopsiynau.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Penaethiaid Nyrsio i sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn cynnal sgyrsiau amserol gyda staff mewn perthynas â pharatoi ar gyfer ymddeoliad. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Hydref 2023 |
| Dylid briffio CNO a Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio ar unrhyw newidiadau cenedlaethol i gymhwysedd a rheolau pensiwn fel y gallant asesu unrhyw effaith bosibl ar gyfraddau cadw nyrsio. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA<br>Llywodraeth Cymru | Hydref 2023 |

# Iechyd a Lles

Mae sefydliadau'n ymwybodol o bwysigrwydd darparu dyletswydd gofal i'w nyrsys. Nid oes dull gweithredu "un ateb i bawb" o hybu lles y gweithlu ac felly mae'n bwysig gwrando ar staff a deall eu hanghenion iechyd a lles penodol er mwyn helpu i wella cyfraddau cadw.

Mae nifer o adnoddau wedi cael eu datblygu gan AaGIC, Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau ac eraill i hybu iechyd a lles timau. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r adnoddau hyn yn anghyson ledled Cymru.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Dylai sefydliadau arddel tystiolaeth o'r defnydd a wneir gan nyrsys o adnoddau a gwasanaethau iechyd a lles. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Tachwedd 2023 |
| Bydd sefydliadau'n arddel tystiolaeth o'u defnydd o gyngor a chymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol fel rhan o'u cynllun gwella cyfraddau cadw lleol. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Dylai'r data a'r wybodaeth a gedwir ar sail y gweithlu nyrsio gan wasanaethau Iechyd Galwedigaethol fod yn ddienw ac yn gydgasgledig ar lefel genedlaethol. Dylid eu cyflenwi i'r CNO ac i Fforwm Partneriaeth y GIG. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Dylai sefydliadau weithredu argymhellion Prosiect Lles Staff Cymru Gyfan fel rhan o'u cynlluniau gwella cyfraddau cadw lleol. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Medi 2024 |

# Cydnabyddiaeth a Chymhellion

Er gwaethaf y ffaith bod sefydliadau'n cydnabod cyfraniad nyrsys drwy amrywiol fentrau lleol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y gweithlu nyrsio'n teimlo bod eu gwaith a'u cyfraniad yn cael ei danbrisio.

Mae gweithio i'r GIG yn cynnig llawer o fuddion cysylltiedig, megis pensiwn cystadleuol, lwfansau gwyliau blynyddol hael / cynllun prynu gwyliau blynyddol, cynlluniau ceir prydles, yr hawl i gardiau gostyngiad y GIG, ymhlith eraill. Fodd bynnag, profiad nyrsys o ddydd i ddydd sy'n ganolog i wella morâl a lles yn y gweithle.

Wrth i ni gyhoeddi'r cynllun hwn, rydym yn ymwybodol o'r gwaith sylweddol sydd ar y gweill yn sgil partneriaeth gymdeithasol rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr GIG Cymru ac undebau llafur i weithredu'r agweddau ar y  cytundebau cyflog Agenda ar gyfer Newid GIG Cymru 2022-24nad ydynt yn ymwneud â thal. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffocws ar leihau'r defnydd o staff asiantaeth, canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio gwobrau recriwtio a chadw yn ogystal â chymell trefniadau banc. Disgwylir allbynnau'r ffrydiau gwaith hyn yn ystod 2024 a byddant yn helpu i lunio'r rhan hon o'r cynllun yn ei gyhoeddiad nesaf. O ganlyniad i'r gwaith parhaus, rydym wedi cynnwys cam gweithredu isod i adolygu'r adran hon ym mis Ebrill 2024 ac i  ddiwygio'r adran hon nid hwyrach na 12 mis wedi'r dyddiad cyhoeddi.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Bydd adolygiad o adran gydnabyddiaeth a chymhellion y cynllun hwn yn cael ei gynnal. Hanfod hyn fydd ystyried deilliannau'r rhaglen waith genedlaethol i weithredu cytundebau cyflog Agenda ar gyfer Newid GIG Cymru ac unrhyw faterion neu weithgareddau perthnasol eraill. | AaGIC i adolygu gyda phartneriaid | Adroddiad ym mis Ebrill 2024. Diwygiadau ôl-ddilynol i'w hychwanegu a'u cyhoeddi nid hwyrach na 12 mis wedi'r cyhoeddiad gwreiddiol. |
| Dylai staff nyrsio gael eu hysbysu drwy raglenni recriwtio a chynefino corfforaethol am fuddion y GIG y mae ganddynt hawl iddynt. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Hydref 2023 |
| Dylai sefydliadau gydnabod eu gweithwyr ac ymfalchïo ynddynt trwy gyfrwng amrywiol gynlluniau cydnabyddiaeth. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Dylai sefydliadau annog a chynorthwyo nyrsys i rannu straeon arferion gorau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Medi 2023 |
| Dylai cynllun gwella cyfraddau cadw pob sefydliad/corff ystyried yn arbennig y canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio gwobrau recriwtio a chadw (RRP) a'r meysydd lle bydd hyn yn cael ei weithredu. Dylid cyflwyno pob RRP i Fforwm Partneriaeth Cymru i'w gadarnhau. Dylid adrodd am y defnydd o RRP yn yr adroddiad cadw a gyflwynir i'r Bwrdd. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |

## Arfarnu Effaith

Rhaid i sefydliadau arfarnu'r gwaith a wneir o ran y camau gweithredu i wella cyfraddau cadw nyrsys. Dylid mesur unrhyw arfarniad ochr yn ochr â'r asesiad sylfaenol cychwynnol (adnodd hunanasesu) i nodi ble mae cynnydd a gwelliant wedi'i gyflawni a ble mae angen gwneud rhagor o waith.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Dylai sefydliadau arfarnu a rhannu canfyddiadau eu cynlluniau gwella cyfraddau cadw lleol mewn partneriaeth â chydweithwyr lleol o fewn Cyrff Proffesiynol / Undebau Llafur. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA<br>Undebau Llafur a Chyrff Proffesiynol | Ebrill 2024 - arfarniad dros dro<br>Hydref 2024 - arfarniad cyflawn |

# Deall Data a Gwybodaeth

Bydd meithrin dealltwriaeth o ddata a gwybodaeth y sefydliad ar sail y gweithlu'n helpu i hyrwyddo dull mwy targededig o wella cyfraddau cadw staff. Dylai hyn felly fod wrth wraidd y gwaith o ddatblygu cynlluniau gwella cyfraddau cadw lleol effeithiol.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni |
|---|---|---|
| Rhaid i sefydliadau addasu/datblygu eu cynlluniau gwella cyfraddau cadw lleol i adlewyrchu'r Cynllun Cadw Nyrsys cenedlaethol hwn. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Hydref 2023 |
| Mae angen i sefydliadau gynyddu canran y Cyfweliadau Ymadael a gwblheir, trwy gyfrwng ESR, i ddynodi themâu cyffredin a'u dadansoddi ar lefel genedlaethol. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Dylai sefydliadau ymgorffori'r defnydd o broses cyfweliadau 'Aros' fel rhan o'u harferion cadw, gyda'r bwriad o gynyddu eu defnydd wrth i'r cynlluniau gwella cyfraddau cadw lleol gael eu datblygu a'u hadolygu. Dylai hyn gynnwys darparu addysg a hyfforddiant i reolwyr llinell i'w galluogi i gynnal cyfweliadau 'Aros' a thrafod yr opsiynau o ran cadw staff. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Ebrill 2024 |
| Er mwyn cynorthwyo a safoni'r broses cyfweliadau "Aros" ymhellach, bydd AaGIC yn llunio canllawiau ar gynnal cyfweliadau "Aros" o fewn Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau, gan gynnwys y data a'r wybodaeth y dylid ei chasglu a'i dadansoddi. | AaGIC | Ebrill 2024 |
| Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI) i fonitro a gwella'r cyfraddau cadw. Gallai'r rhain gynnwys:<br>Cyfraddau ymadawyr y GIG a'u rhesymau dros adael<br>Cyfraddau athreuliad (symud i sefydliadau eraill GIG Cymru)<br>Canlyniadau'r arolwg staff<br>Swyddi Gwag<br>Ceisiadau gweithio hyblyg a'u deilliannau<br>Ceisiadau ymddeol a dychwelyd a'u deilliannau | Llywodraeth Cymru | Mawrth 2024 |
| Dylai sefydliadau ddadansoddi data a gwybodaeth ddemograffig cadw nyrsys i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu nyrsio. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd<br>AIA | Mawrth 2024 |

# Hyrwyddo Gweithrediad

Yng nghyswllt y pwysau presennol ar y GIG, mae gweithredu'r camau hyn yn gofyn am ddull cytbwys sy'n ystyried y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen; y pwyslais ar arweinyddiaeth a gwelliant lleol; a'r disgwyliadau o ran rheoli perfformiad a gwelededd ar lefel Bwrdd.

- Cymorth ac Adnoddau – Bydd AaGIC yn darparu cyllid tymor byr ar gyfer swyddi arweinwyr gwella cyfraddau cadw lleol i gyflwyno capasiti ychwanegol a ffocws ar waith cadw mewn sefydliadau unigol. Bydd AaGIC hefyd yn parhau i gynorthwyo gydag adnoddau, offer ac arweiniad cenedlaethol.
- Arweinyddiaeth a Gwelliant Lleol – Bydd AaGIC yn hwyluso cymuned ymarfer ar sail cadw staff, i gynnwys holl sefydliadau'r GIG, er mwyn annog arloesedd ac arfer o rannu a lledaenu mentrau cadw effeithiol.
- Rheoli Perfformiad a Gwelededd - Argymhellir cyflwyno adroddiad cadw i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn i adrodd ar weithrediad y cynlluniau gwella cyfraddau cadw nyrsys lleol. Argymhellir hefyd ymgorffori dangosyddion cadw yn rhan o fecanweithiau rheoli perfformiad a sicrwydd ar y cyd â LlC.

Bydd Arweinwyr Gwella Lleol yn canolbwyntio i ddechrau ar y gweithlu nyrsio ond bydd ganddynt gylch gwaith ehangach i gwmpasu'r gweithlu cyfan wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Bydd gofyn i bob sefydliad ddatblygu **cynllun gwella cyfraddau cadw nyrsys lleol erbyn mis Hydref 2023.** Dylai Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a'r Gweithlu arwain y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gwella cyfraddau cadw nyrsys lleol. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni'r camau gweithredu cenedlaethol a nodir yn y ddogfen hon a pharhau i ddatblygu'r cynlluniau i adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr hunanasesiadau. Dylid datblygu'r cynlluniau lleol mewn partneriaeth gymdeithasol â chyrff proffesiynol ac undebau llafur.

Bydd AaGIC hefyd yn sefydlu **Rhaglen Gadw Genedlaethol erbyn mis Hydref 2023** i hwyluso cydweithrediad ledled Cymru i wella cyfraddau cadw ymhlith gweithlu ehangach GIG Cymru. Hanfod hyn yw rhannu dysg ac arferion gorau trwy ddull gwella ansawdd.

# Cyfeiriadau


1 Adroddiad Arolwg Cyflogwyr y GIG (2020). Nurses' views on flexible working. Conffederasiwn y GIG. Lloegr.

2 NMC (2022) 0110e-annual-data-report-wales-web.pdf (nmc.org.uk)

3 RCN (2021) Niferoedd Nyrsio. RCN. Caerdydd.

4 RCN (2022) Cadw Nyrsys yn y Proffesiwn. Beth sy'n bwysig. RCN. Caerdydd.

5 Rollan Oliveira S, Siles González J. Nursing Professionals within the Intergenerational Context during the 20th and 21st Centuries: An Integrative Review. Invest Educ Enferm. 2021 Hydref;39(3): e14. doi: 10.17533/udea.iee.v39n3e14. PMID: 34822241; PMCID: PMC8912162.

6 Schneider. Barbera .K. (2014) https://books.google.com/books/about/The_Oxford_Handbook_of_Organizational_Cl.html?id=7zVjAwAAQBAJ

7 The Health Foundation, The Kings Fund ac Ymddiriedolaeth Nuffield (2019) Closing the Gap. Key areas for action on the health and care workforce. The Health Foundation, The Kings Fund ac Ymddiriedolaeth Nuffield

8 Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Caerdydd. Llywodraeth Cymru

9 Llywodraeth Cymru (2023) Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Gweithlu. Caerdydd. LlC.

10 Llywodraeth Cymru (2020) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Caerdydd. Llywodraeth Cymru

11 Llywodraeth Cymru (2023) Canllawiau Statudol Dyletswydd Gonestrwydd. Caerdydd. Llywodraeth Cymru

12 Llywodraeth Cymru (2016) Canllawiau Statudol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Caerdydd. LlC.

13 West. M. Bailey. S. a Williams E. (2020) The courage of compassion; Supporting nurses and midwives to deliver high-quality care. www.kingsfund.org.uk/compassion

14 West. M. (2021) Compassionate Leadership; Sustaining Wisdom, Humanity and Presence in Health and Social Care.ISBN 978-0-9957669-7-6